| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Cyngor Sir |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 9 Mai 2023 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Y Cyng. Gwyneth Ellis |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | Louise Dougal, Pennaeth AD Dros Dro |
| **Awdur yr Adroddiad** | Sophie Vaughan, Arbenigwr Tâl a Chydnabyddiaeth |
| **Teitl** | Datganiad Polisi Tâl 2023/24 |

# 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae Deddf Lleoliaeth 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol baratoi datganiadau polisi tâl. Mae'n rhaid i'r datganiadau hyn fynegi polisïau'r awdurdod ei hun ar amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â chyflog ei weithlu, yn arbennig ei uwch staff (neu "brif swyddogion"), a'i weithwyr ar y cyflogau isaf. Mae'n rhaid i'r Cyngor gymeradwyo Datganiadau Polisi Tâl bob blwyddyn, a'u cyhoeddi ar y wefan berthnasol.

# 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. Mae'r adroddiad hwn yn ceisio cymeradwyaeth y Cyngor Llawn i'r Datganiad Polisi Tâl sydd ynghlwm,h y Cyngor Llawn i'r Datganiad Polisi Tâl sydd ynghlwm, a ddrafftiwyd yn unol â gofynion 38 (1) Deddf Lleoliaeth 2011 ac sy'n cynnwys yr holl drefniadau tâl presennol ar gyfer y grwpiau gweithlu o fewn y Cyngor, gan gynnwys y Prif Swyddogion a'r gweithwyr ar y cyflogau isaf.

# 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1. Bod y Cyngor Llawn yn cytuno ag argymhelliad y Panel Tâl Uwch Arweinyddiaeth a chymeradwyo'r Polisi Tâl ar gyfer 2023/24 (copi yn Atodiad A).

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

3.2. Bod y Pwyllgor yn cadarnhau ei fod wedi darllen, deall ac ystyried yr Asesiad o Effaith ar Les (Atodiad B) fel rhan o'i ystyriaethau.

# 4. Manylion yr adroddiad

## Datganiad Polisi Tâl

4.1.1 Dan Adran 112 Deddf Llywodraeth Leol 1972 mae gan y Cyngor 'y pŵer i benodi swyddogion ar delerau ac amodau rhesymol o'r math y mae'r Cyngor yn eu barnu'n addas'. Mae'r datganiad Polisi Tâl hwn yn amlinellu ymagwedd y Cyngor at dâl yn unol â gofynion a38 (1) Deddf Lleoliaeth 2011, sy'n ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol Cymru a Lloegr gynhyrchu a chyhoeddi Datganiad Polisi Tâl ar gyfer pob blwyddyn ariannol, sy'n manylu ar y canlynol:

a) Polisïau'r Cyngor ar bob agwedd ac elfen o dâl Prif Swyddogion
b) Dull y Cyngor o gyhoeddi a chaniatáu mynediad at wybodaeth sy'n ymwneud â phob agwedd ar dâl Prif Swyddogion
c) Polisïau'r Cyngor ar dâl ei weithwyr sydd ar y cyflogau isaf (gan gynnwys y diffiniad a fabwysiadwyd a'r rhesymau drosto)
d) Y berthynas rhwng tâl ei Brif Swyddogion a gweithwyr eraill.

Mae'r Polisi Tâl wedi cael ei adolygu ar gyfer 2023/24 a gwnaed y newidiadau canlynol:

**4.1.2 Dyfarniadau Tâl Cenedlaethol**

Mae'r Polisi Tâl wedi'i ddiweddaru i ystyried y sefyllfa bresennol o ran y dyfarniadau tâl cenedlaethol a gytunwyd ar gyfer 2022/23, ond nid os cytundeb wedi'i wneud ar gyfer 2023/24. Unwaith y bydd gennym safbwynt clir ar y cytundeb, bydd y Strwythurau Tâl ar gyfer 2023/24 yn cael eu diwygio yn unol â hynny a gallwn ddeall y sefyllfa o ran Cyflog Byw Gwirioneddol, ond disgwylir y bydd ein cynyddran isaf yn fwy na'r Cyflog Byw Gwirioneddol.

**4.1.3 Dyfarniad Tâl y Prif Weithredwr a'r Prif Swyddogion**

Mae'r Polisi Tâl wedi'i ddiweddaru i ystyried y sefyllfa bresennol o ran y dyfarniadau cyflog cenedlaethol Prif Weithredwyr a Phrif Swyddogion, sydd eto i'w cytuno ar gyfer 2023/24.

#### 4.1.4 Perthnasedd Tâl o fewn y Cyngor

Mae paragraff 7.4 yn y Polisi Tâl wedi'i ddiweddaru gyda'r gymhariaeth ddiweddaraf rhwng y rhai sydd ar y cyflogau isaf a chyflog y Prif Weithredwr. Gofynnwyd i'r adroddiad Hutton ar Gyflog Teg yn y sector cyhoeddus i archwilio achos dros derfyn penodol ar wasgariad cyflog yn y sector cyhoeddus, drwy ofyniad na all unrhyw reolwr yn y sector cyhoeddus ennill 20 gwaith yn fwy nag unrhyw un ar y cyflog isaf yn y sefydliad.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at Gynllun Corfforaethol 2022 i 2027: Y Sir Ddinbych a Garem?

5.1. Bydd polisi tâl teg a thryloyw yn cyfrannu at weithlu brwdfrydig fydd, yn ei dro, yn cyfrannu tuag at y Cynllun Corfforaethol, yn enwedig cyngor sy'n cael ei redeg yn dda ac yn perfformio'n dda. Mae gan y polisi gyfraniad niwtral at darged y Cyngor i ddod yn sefydliad Ecolegol Gadarnhaol a Di-Garbon Net erbyn 2030.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Ni cheir goblygiadau ariannol newydd yn sgil y Polisi Tâl hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1. Nodau'r Datganiad Polisi Tâl yw darparu pecyn gwobrau sy'n gystadleuol ac sy'n ein galluogi i ddenu, cymell a chadw'r bobl ddawnus briodol sydd eu hangen i gynnal a gwella ein perfformiad a chwrdd â heriau'r dyfodol. Mae'n nodi dull cyson o ymdrin â chyflogau, telerau ac amodau ar draws y Cyngor y mae staff a rheolwyr yn eu deall ac yn eu cymhwyso i weithlu amrywiol sy'n adlewyrchu'r gymuned y mae'n ei gwasanaethu mewn ffordd dryloyw, ecwitiol a theg, gan gydymffurfio â deddfwriaeth.

7.2. Gall arddangos yr arferion hyn o fewn y Cyngor, a bod yn dryloyw, sicrhau ein bod yn recriwtio ac yn cadw gweithwyr sy'n cael eu trin yn deg. Gall hyn hefyd helpu i annog trigolion y sir i chwilio am waith yn y Cyngor a all hefyd helpu'r economi leol.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1. Ymgynghorwyd â'r Pennaeth AD a'r Swyddog Adran 151 i sicrhau bod holl ofynion a38 (1) y Ddeddf Lleoliaeth wedi eu hymgorffori.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1. Fel nodwyd yn adran 6, nid oes unrhyw oblygiadau ariannol uniongyrchol yn codi o'r adroddiad hwn. Yn amlwg bydd canlyniadau ariannol i'r dyfarniadau tâl terfynol y cytunwyd arnynt ar gyfer 23/24 a bydd y rhain yn cael eu hadrodd wrth i'r sefyllfa ddod yn gliriach.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Bydd y Cyngor yn torri ei rwymedigaethau cyfreithiol mewn perthynas â'r Ddeddf Lleoliaeth os nad yw'n mabwysiadu'r Polisi Tâl.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1. A38(1) Deddf Lleoliaeth 2011 ac adran 112 Deddf Llywodraeth Leol 1972